



**Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion  
Papur Pwnc  
Yr Iaith Gymraeg**

**Fersiwn Cyflwyno**

**Rhagfyr 2011**

**Bryan Thomas, MCIEH, FRSH**

---

Cyfarwyddwr Adran y Gwasanaethau Amgylcheddol a Thai,  
Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron SA46 0PA  
Ffôn 01545 570881 Ffacs: 01545 572117

---

Director of Environmental Services and Housing,  
Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron SA46 0PA  
Tel: 01545 570881 Fax: 01545 572117

---



## Cynnwys

Cynnwys	i
Nodyn i'r Darllenydd	ii
1. Adolygu'r Cyd-destun Polisi	1
2. Canllawiau a Strategaethau	1
3. Y Cyd-destun Lleol / Gwybodaeth a Thystiolaeth	5
4. Ymgysylltu	13
5. Goblygiadau unrhyw Ffactorau sy'n Sbarduno Newid	14
6. Materion a fydd yn cael sylw yn y Cynllun Datblygu Lleol (gan gynnwys amcan o unrhyw gyfleoedd neu gyfyngiadau sy'n bodoli)	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
7. Amcanion y Cynllun Datblygu Lleol	18
8. Datblygu Polisiâu'r Cynllun Datblygu Lleol	19
9. Canllawiau Cynllunio Atodol	24
10. Monitro	24
Atodiad 1 - Dogfennau Cyfeirio	26
Atodiad 2 – Tabl o'r rhai a fu'n cyfrannu	28

## **Nodyn i'r Darllenydd**

Sylwer mai hwn yw'r Papur Pwnc diweddaraf ynghylch y maes polisi penodol hwn.

Pwrpas y Papur Pwnc hwn yw helpu i egluro a chyfiawnhau dull yr Awdurdod Cynllunio Lleol o drin y pwnc penodol hwn yng Nghynllun Datblygu Lleol Ceredigion (2007-2022).

Mae'r Papur Pwnc yn rhoi crynodeb o'r prif ddogfennau a thystiolaeth sydd wedi'u hystyried wrth lunio Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion mewn cysylltiad â'r pwnc hwn.

Wrth gynhyrchu'r Cynllun Datblygu Lleol mae'r Papur Pwnc wedi bod yn ddogfen fyw wrth i dystiolaeth newydd ddod i'r golwg a chanllawiau gael eu cyhoeddi / disodli. Trefnwyd i fersiynau blaenorol y Papur Pwnc fod ar gael yng ngham y Strategaeth a Ffeirir (Mawrth 2009) a cham y Fersiwn Adneuo (Rhagfyr 2010). Mae'r fersiynau hynny wedi'u disodli bellach gan y Fersiwn Cyflwyno hon (Rhagfyr 2011) o'r Papur Pwnc.

## 1. Adolygu'r Cyd-destun Polisi

- 1.1.1 Mae'r iaith Gymraeg yn elfen bwysig o gymdeithas a diwylliant Cymru. Mae datblygiad yr iaith a'i chynaliadwyedd at y dyfodol yn dibynnu ar ystod eang o ffactorau, yn benodol felly addysg, newid demograffig, gweithgareddau cymunedol a sylfaen economaidd gadarn i gynnal cymunedau Gymraeg ffyniannus.

## 2. Canllawiau a Strategaethau

- 2.1.1 Mae'r adran ganlynol yn disgrifio'r sefyllfa ddiweddaraf o ran y canllawiau a'r strategaethau perthnasol ar y lefelau rhyngwladol, cenedlaethol a rhanbarthol, eu perthnasedd i'r Cynllun Datblygu Lleol a sut maent wedi'u defnyddio neu eu hystyried yn y Cynllun Datblygu Lleol.

### 2.2 Polisi Cynllunio Cymru Argraffiad 4 (Llywodraeth Cynulliad Cymru (LICC), Chwefror 2011)

- 2.2.1 Yn ôl 'Polisi Cynllunio Cymru' (PCC) (LIC, Chwefror 2011), dylai'r system cynllunio defnydd tir ystyried anghenion a buddiannau'r iaith Gymraeg a thrwy wneud hynny dylai gyfrannu at ei lles.

- 2.2.2 O dan Bolisi Cynllunio Cymru (LIC, Chwefror 2011), wrth lunio polisïau rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol (ACLI) roi cyfiawnhad rhesymedig dros y ffordd y mae wedi ystyried anghenion yr iaith Gymraeg wrth baratoi'r cynllun a sut mae unrhyw bolisi sy'n berthnasol i'r iaith yn rhyngweithio â pholisïau eraill yn y cynllun. Ar sail y canllawiau a'r wybodaeth sydd yn PCC, mae'r iaith Gymraeg wedi'i hystyried ym mhob rhan o broses y Cynllun Datblygu Lleol. Crëwyd nifer o bolisïau penodol hefyd yng nghyswllt yr iaith Gymraeg, sef:

- DM02: Cymunedau Cynaliadwy a'r iaith Gymraeg: Datganiadau ac Asesiadau; a
- DM08: Arwyddion Dwyieithog ac Enwau Llefydd

### 2.3 Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 20 (LICC, 2000)

- 2.3.1 Mae Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 20 yn cynnwys canllawiau ynghylch integreiddio'r iaith Gymraeg o fewn y broses o lunio polisïau ar gyfer Cynlluniau Datblygu Unedol ac mae'n adleisio'r hyn a nodir yn PCC (LICC, 2010). Mae'r TAN hefyd yn disgrifio sut mae dosbarthiad twf economaidd yn gallu effeithio ar gymeriad gwahanol ardaloedd, gan gynnwys y cydbwysedd ieithyddol. Mae'r TAN hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd rôl yr iaith Gymraeg wrth ymgynghori, ar arwyddion a hysbysebion, ac wrth benderfynu ynghylch ceisiadau cynllunio. Rhaid ystyried canllawiau'r TAN wrth baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol (hynny yw, maent yn berthnasol i Gynlluniau Datblygu Lleol yn ogystal â rhai Unedol), a rhaid darparu ar gyfer yr iaith Gymraeg ym mhob cam o'r broses. Mae llawer o'r canllawiau sy'n ymwneud â pholisïau'n eithaf cyffredinol, ac maent yn gadael i awdurdodau lleol ddelio â'r iaith yn y ffordd sy'n gweithio orau iddyn

nhw. Mae'n debyg bod hyn yn adlewyrchu'r gwahaniaethau mawr sydd rhwng canrannau'r siaradwyr Cymraeg yn y gwahanol awdurdodau ynghyd â'r ansicrwydd ynglŷn â'r ffordd orau i gefnogi'r iaith drwy'r system gynllunio.

2.3.2 Ar sail y canllawiau a'r wybodaeth sydd yn PCC a'r TAN, mae'r iaith Gymraeg wedi'i hystyried ym mhob rhan o broses y Cynllun Datblygu Lleol. Crëwyd nifer o bolisiâu penodol hefyd yng nghyswllt yr iaith Gymraeg, sef:

- DM02: Cymunedau Cynaliadwy a'r iaith Gymraeg: Datganiadau ac Asesiadau; a
- DM08: Arwyddion Dwyieithog ac Enwau Llefydd.

2.3.3 Ystyriwyd yr iaith Gymraeg hefyd wrth ddatblygu strategaeth anheddu'r Cynllun Datblygu Lleol. Drwy ganoli twf yn y manau mwyaf cynaliadwy, a thrwy ddarparu ar gyfer rhywfaint o dwf i ddiwallu rhywfaint o'r angen mewn ardaloedd eraill, nod y Cynllun yw hybu cydlyniant cymunedol, rhyngweithio a defnyddio'r iaith Gymraeg.

## **2.4 Cynllun Gofodol Cymru (LICC, 2002)**

2.4.1 Mae Cynllun Gofodol Cymru yn nodi bod yr iaith Gymraeg yn ffactor pwysig sy'n cyfrannu at gymeriad unigryw Cymru. Mae'n nodi bod Cymru'n dod yn wlad fwy dwyieithog, bod 40% o siaradwyr Cymraeg bellach yn byw mewn ardaloedd trefol, a bod cyfran gynyddol o dan 25 oed. Fodd bynnag, ar yr un pryd, mae canran y bobl sy'n siarad Cymraeg yn y cymunedau gwledig, lle mae'r iaith yn draddodiadol wedi bod yn gryf, yn dal i ostwng yn raddol.

2.4.2 Mae Polisiâu Strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol, sef S01-S07, yn ategu'r strategaeth hon fel y mae Polisiâu DM02: Cymunedau Cynaliadwy a'r iaith Gymraeg: Datganiadau ac Asesiadau; a DM08: Arwyddion Dwyieithog ac Enwau Llefydd yn benodol mewn cysylltiad â'r iaith Gymraeg.

## **2.5 Iaith Pawb (LICC, 2003)**

2.5.1 Mae Iaith Pawb: Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyieithog (LICC, 2003) yn gynllun gweithredu cenedlaethol sy'n gosod strategaeth i sicrhau bod yr iaith Gymraeg nid yn unig yn cael ei chefnogi ond hefyd bod ganddi'r amgylchedd iawn i ffynnu.

2.5.2 Mae Polisiâu Strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol, sef S01-S07, yn ategu'r strategaeth hon fel y mae Polisiâu DM02: Cymunedau Cynaliadwy a'r iaith Gymraeg: Datganiadau ac Asesiadau; a DM08: Arwyddion Dwyieithog ac Enwau Llefydd yn benodol mewn cysylltiad â'r iaith Gymraeg.

## **2.6 Diweddariad Cynllun Gofodol Cymru 2008**

2.6.1 Mae Diweddariad Cynllun Gofodol Cymru 2008 yn nodi bod gan yr iaith Gymraeg rôl bwysig i'w chwarae yn ein cymunedau [yng

Nghanolbarth Cymru] ac y bydd datblygu'r ardal yn unol â gweledigaeth Iaith Pawb o greu cymdeithas ddwyieithog fodern yn flaenoriaeth allweddol. Mae Grŵp y Cynllun Gofodol wedi datblygu canllawiau i helpu cyrff cyhoeddus ac ymarferwyr o ran sut a phryd i ystyried anghenion a buddiannau'r iaith Gymraeg yng nghyd-destun Cynllun Gofodol Cymru. Defnyddir y canllawiau i arfarnu'r opsiynau / cynigion sy'n cael eu hystyried o dan amrywiol ffrydiau gwaith Cynllun Gofodol Cymru. Fodd bynnag, mae Cyngor Sir Ceredigion wedi penderfynu defnyddio methodoleg wedi'i haddasu, sydd wedi'i disgrifio yn 'Cynllunio ar gyfer yr Iaith Gymraeg: y Ffordd Ymlaen' (2005), gan ei bod yn darparu gwybodaeth fwy manwl a mwy perthnasol ar lefel leol na'r opsiynau / cynigion sydd wedi'u nodi yng Nghynllun Gofodol Cymru (mae mwy o fanylion ym Mholisi DM02 am y dull y mae'r ACLI wedi'i fabwysiadu yn y Cynllun Datblygu Lleol).

- 2.6.2 Mae Polisiâu Strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol, sef S01-S07, yn ategu'r strategaeth hon fel y mae Polisiâu DM02: Cymunedau Cynaliadwy a'r Iaith Gymraeg: Datganiadau ac Asesiadau; a DM08: Arwyddion Dwyieithog ac Enwau Llefydd yn benodol mewn cysylltiad â'r iaith Gymraeg.

## **2.7 Cynllunio a'r Iaith Gymraeg: y Ffordd Ymlaen (Llywodraeth Cynulliad Cymru a chyrrff eraill, 2005)**

- 2.7.1 Methodoleg ar gyfer asesu effaith datblygiadau newydd ar y Gymraeg yw 'Cynllunio a'r Iaith Gymraeg: y Ffordd Ymlaen' (2005). Cafodd ei chomisiynu gan gonsortiw m o awdurdodau lleol a'i threialu gyda'r bwriad o adrodd ar ei gweithrediad yng ngwanwyn / haf 2008. Yn ardal Sir Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri rhwng Ebrill 2007 a Mehefin 2008, dim ond ar gyfer chwe chais y gofynnwyd am ddarparu Datganiad Cymunedol ac Iaith, ac nid oedd yr un cais lle'r oedd gofyn darparu Asesiad Llawn o'r Effaith ar y Gymuned ac ar yr Iaith. O'r chwe Datganiad Cymunedol ac Iaith, dim ond un cais a fyddai, ym marn y pwyllgor, yn cael effaith gronnus a fyddai'n effeithio'n sylweddol ar yr iaith Gymraeg. Cafodd y penderfyniad i wrthod ei wrthdroi ar apêl er nad oedd yr iaith yn un o'r prif ffactorau yn y penderfyniad hwnnw. Yn yr achos hwn, ni roddodd yr arolygydd lawer o bwyslais ar y canllawiau oherwydd eu statws peilot.
- 2.7.2 Er prinned oedd yr wybodaeth a gasglwyd yn y peilot, penderfynodd Cyngor Gwynedd fabwysiadu'r canllawiau, heb eu haddasu, fel canllawiau dros dro i ategu polisiâu Cynllun Lleol Eryri a chytunodd y dylid mynd ati i weithredu egwyddorion y canllawiau i ategu polisiâu'r Cynllun Datblygu Lleol newydd.
- 2.7.3 Ar sail y fethodoleg hon, mae Ceredigion wedi penderfynu ar ddull ehangach o asesu, a fydd yn ymgorffori elfennau sy'n ymwneud â'r effaith ar y gymuned yn y pecyn cymorth, ar y sail bod cymuned ac iaith yn gwbl annatod. Dyma ddewis ddull y grŵp rhanddeiliaid a sefydlwyd i drafod materion sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg (gweler Atodiad 2).

## **2.8 Cynllun Datblygu Unedol Ceredigion – Fersiwn y Diwygiadau Arfaethedig (CSC, 2006)**

2.8.1 Mae Fersiwn y Diwygiadau Arfaethedig, Cynllun Datblygu Unedol Ceredigion (CSC, 2006) yn cydnabod bod yr iaith Gymraeg yn elfen allweddol o'r gymuned ac mae'n ceisio ystyried ei hanghenion a'i buddiannau. Fodd bynnag, mae hefyd yn cydnabod nad cynllunio ar ei ben ei hun yw'r unig ffactor sy'n effeithio ar gyflwr a chynaliadwyedd yr iaith. Yn y bôn, mae polisïau'r Cynllun Datblygu Unedol yn adlewyrchu canllawiau TAN 20. Bydd y polisïau hyn yn cael eu disodli pan fabwysiedir y Cynllun Datblygu Lleol, ond mae eu cynnwys a'u cymhwysiad wedi dylanwadu ar ddrafftio'r Cynllun Datblygu Lleol.

## **2.9 Strategaeth Gymunedol Ceredigion: Ceredigion 2020 (Cyngor Sir Ceredigion, 2003)**

2.9.1 Yn ôl Strategaeth Gymunedol Ceredigion (CSC, 2003), mae'r iaith Gymraeg yn rhan annatod a phwysig o ddiwylliant a threftadaeth yr ardal. Rhaid i bobl allu defnyddio eu dewis iaith a rhaid rhoi cefnogaeth i ddefnyddio'r iaith. Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi bod yn weithredol o ran ffurfio Dyfodol Dwyieithog, sydd wedi bod yn gweithio tuag at hybu a chefnogi'r defnydd a wneir o'r iaith mewn busnes, gweithgareddau diwylliannol ac yn y gymuned.

2.9.2 Mae'r Strategaeth yn nodi 6 o gamau gweithredu sydd â'r bwriad o gynyddu defnydd yr iaith yng Ngheredigion:

- a. Mentrau i gynyddu'r defnydd economaidd, cymdeithasol a diwylliannol o'r iaith ar lefel y gymuned;
- b. Sicrhau bod materion yr iaith Gymraeg yn rhan o ddatblygu polisïau a darparu gwasanaethau yn yr holl Strategaethau Cymunedol yn unol â Chynllun Iaith Gymraeg y Cyngor Sir;
- c. Hyrwyddo a chefnogi mentrau i annog rhieni Cymraeg eu hiaith i drosglwyddo'r iaith i'w plant;
- d. Sicrhau bod cyngor a chefnogaeth ar ddefnyddio'r iaith yn cael ei roi i gyrff cyhoeddus, preifat, gwirfoddol ac i fusnesau;
- e. Mentrau sy'n annog unigolion i ddysgu a defnyddio'r iaith;
- f. Hybu mwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn yr Ysgolion.

2.9.3 Mae'r Strategaeth Gymunedol yn un o ddogfennau allweddol Ceredigion ynghyd â'r Cynllun Datblygu Lleol, Cynllun Pobl Ifanc Ceredigion a'r Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles, a dylid ystyried ei nodau wrth lunio polisïau iaith Gymraeg y Cynllun Datblygu Lleol. Mae'n anochel y bydd y rôl y bydd y Cynllun Datblygu Lleol yn gallu ei chwarae i gyflawni'r amcanion hyn yn ymylol o ystyried nad yw'r strategaethau hyn yn ymwneud yn uniongyrchol â chynllunio defnydd tir.



- 2.9.4 Mae'r Cynllun Datblygu Lleol wedi llwyddo i hwyluso rhai o nodau'r grŵp thematig drwy amrywiol ddulliau polisi. Yn benodol, mae polisiâu DM02: Cymunedau Cynaliadwy a'r Iaith Gymraeg: Datganiadau ac Aseidiadau; a DM08: Arwyddion Dwyieithog ac Enwau Llefydd, yn ategu maen prawf b yn y rhestr o dan baragraff 2.9.2 uchod.

## **2.10 Cynllun Iaith Gymraeg Ceredigion 2006-2009 (CSC, 2006)**

- 2.10.1 Yr egwyddor sylfaenol yng Nghynllun Iaith Gymraeg Ceredigion 2006-2009 (CSC, 2006) yw y bydd yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal. Mae'r cynllun hwn yn nodi sut y bydd Cyngor Sir Ceredigion yn gweithredu'r egwyddor hon wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn y Sir. Un agwedd ar weithredu'r egwyddor yw trefnu i bob dogfen bolisi fod ar gael yn Gymraeg a Saesneg.
- 2.10.2 Gwelwyd hyn ym mhroses y Cynllun Datblygu Lleol gan fod yr awdurdod lleol wedi sicrhau bod y Cynllun Datblygu Lleol ei hun ar gael yn ddwyieithog ym mhob cam.

## **3. Y Cyd-destun Lleol / Gwybodaeth a Thystiolaeth**


- 3.1.1 Mae'r Adran sy'n dilyn yn rhoi disgrifiad byr o gymeriad diwylliannol ac ieithyddol Ceredigion a sut mae'r wybodaeth hon wedi dylanwadu ar gynnwys y Cynllun Datblygu Lleol a'r broses o'i lunio.

### **3.2 Trosolwg**

- 3.2.1 Mae Ceredigion yn un o'r cymunedau cryfaf yng Nghymru o ran yr iaith Gymraeg, ac mae 54.8% o'r boblogaeth breswyl yn dweud bod ganddynt ddealltwriaeth o'r iaith. Am fod canran y siaradwyr Cymraeg yn gymharol uchel, mae'r iaith yn elfen bwysig iawn yng ngwedd cymdeithasol Ceredigion ac mae'n briodol ystyried hyn wrth lunio polisiâu defnydd tir. O ddiwedd y 18 ganrif hyd hanner cyntaf yr 20 ganrif cafwyd cyfnod hir o ddiboblogi yng Ngheredigion, yn yr un modd â llawer o Gymru wledig, gan arwain at ostyngiad cyffredinol yn nifer y siaradwyr Cymraeg a oedd yn byw yn y sir. Erbyn 1961, roedd Ceredigion wedi colli rhwng chwarter a thraean ei phoblogaeth yn 1871. At hynny, roedd y diboblogi hwn yn nodwedd fwy cyson mewn ardaloedd gwledig. Mewn trefi fel Aberystwyth gwelwyd rhywfaint o wrthdroi ar y duedd erbyn y 1960au, ond roedd ardaloedd gwledig fel Tregaron yn dal i weld allfudo gan y rhai mwy symudol, medrus ac uchelgeisiol, a'r rheini a oedd wedi'u symbylu gan ddiffyg cyfalaf neu eiddo lleol.
- 3.2.2 Er gwaethaf diboblogi ac allfudo parhaus, roedd yr ardaloedd gwledig hyn yn cynnal cyfran uchel o siaradwyr Cymraeg (Ffigur 3.1); y rhain yw'r union ardaloedd sy'n ffurfio cadarnleoedd traddodiadol y Gymraeg, a elwir weithiau Y Fro Gymraeg (Balsom, 1985). Fodd bynnag, o ystyried proffil oedran y boblogaeth, dibyniaeth yr economi

leol ar drosglwyddo taliadau o lywodraeth ganolog, a'r dirywiad mewn gwasanaethau lleol erbyn y 1960au, mae'n amheus a ellid disgrifio'r sefyllfa hon fel un gynaliadwy yn y tymor canolig a hir. Hynny yw, heb newid o ran diboblogi parhaus, mae'r cymunedau hyn ar fin gweld newid sylweddol, trobwynt gwirioneddol o ran dirywiad mewn poblogaeth.

**Ffigur 3.1. Cyfran yr unigolion sy'n gallu siarad Cymraeg yn 2001 yn 3 oed ac yn hŷn yn ôl wardiau etholiadol (Cyfrifiad 2001).**



Map designed by the Welsh Language Board

Source: Table CAS146 2001 Census.

© Crown Copyright 2004. Crown copyright material is reproduced with the permission of the Controller of HMSO.

3.2.3 Ers y 1960au, mae'r boblogaeth leol a gollwyd wedi'i gwrthbwysu'n rhannol gan fewnfudo, o'r tu allan i'r Sir. Mae twf o'r math hwn wedi bod yn amlwg mewn nifer o ardaloedd eraill yn y DU sydd wedi'u diffinio fel rhai 'gwledig ac anghysbell'. Roedd y rhain yn aml yn ardaloedd a oedd hefyd wedi gweld diboblogi ar ddiwedd y 19 ganrif a dechrau'r 20 ganrif. O ganlyniad, mae hyd yn oed gyfradd eithaf bach

o ailboblogi wedi arwain yn aml at gynnydd mawr o'i fynegi fel canran o'r boblogaeth gyfan. Felly, bydd cynnydd mewn poblogaeth yn arwain yn aml at ostyngiad yng nghyfran y siaradwyr Cymraeg, mewn aneddiadau mawr yn fwyaf penodol. Ers y 1980au, mae'r grŵp oedran 3+ o fewn y boblogaeth (fel y mae wedi'i ddiffinio gan Gyfrifiad Cenedlaethol 2001) o siaradwyr Cymraeg wedi cynyddu. Er hynny, mae cyfran y siaradwyr Cymraeg yn gyffredinol wedi dal i ostwng, er bod y gostyngiad yn arafach.

3.2.4 Mae'r wybodaeth gywiraf sydd ar gael am gyfran y siaradwyr Cymraeg yng Ngheredigion yn deillio o ddata'r Cyfrifiad Cenedlaethol. Fodd bynnag, mae newidiadau yn y fethodoleg wedi arwain at ddadlau ynghylch union gyfradd y newid hwn. Wrth gymharu ffigurau ar gyfer 1991 a 2001 yn uniongyrchol, gwelir bod cyfran y siaradwyr Cymraeg yng Ngheredigion wedi disgyn o 59.1% i 52.0%, gwahaniaeth o 7.1%. Fodd bynnag, nid yw'n bosibl cymharu ffigurau'r blynyddoedd hyn yn uniongyrchol oherwydd, o 2001 ymlaen, cyfrifwyd myfyrwyr Addysg Uwch fel rhai sy'n byw yn eu cyfeiriad amser tymor, yn hytrach na'u cyfeiriad cartref.

3.2.5 Mae gan Geredigion ddwy brifysgol, Aberystwyth a Llanbedr Pont Steffan, gyda'r nifer mwyaf o fyfyrwyr yn y gyntaf, a chydai gilydd mae iddynt boblogaeth o tua 6,800 o unigolion. Gan mai dim ond tua 1,500 o'r rhain sy'n siarad Cymraeg, maent yn cael effaith sylweddol ar gyfran y siaradwyr Cymraeg os ychwanegir hwy at boblogaeth barhaol gymharol isel Ceredigion. O ystyried y ffactor hwnnw, rhwng 1991 a 2001, gwelwn fod cyfran y siaradwyr Cymraeg wedi gostwng o 59.1% i 54.8%, gwahaniaeth o 4.3%. Drwy ddefnyddio'r ffigurau sydd wedi'u crybwyll uchod, mae modd cymharu Ceredigion ag Awdurdodau Unedol eraill Cymru. Fodd bynnag, mae astudiaeth gan Aitchison a Carter (2004) yn dangos bod twf wedi bod o ran niferoedd a chyfrannau'r siaradwyr Cymraeg mewn llawer o ardaloedd y tu allan i'r Fro Gymraeg. Mae Awdurdodau Unedol a ystyrid yn gadarnleoedd traddodiadol i'r Gymraeg wedi dangos dirywiad yng nghyfran y siaradwyr Cymraeg. Er bod Ceredigion wedi dangos un o'r dirywiadau mwyaf, gwahaniaeth o 4.3%, o 59.1% yn 1991 i 54.8% yn 2001, nid yw'r gwahaniaeth hwn ar raddfa gwbl wahanol i'r hyn a welwyd yn Sir Gaerfyrddin (-4.5%) neu yng Ngwynedd (-3.4%).

**Ffigur 3.2. Cyfran y siaradwyr Cymraeg gan gynnwys myfyrwyr Addysg Uwch yn ôl ward etholiadol (Cyfrifiad 2001).**

Ward Etholiadol	Poblogaeth (Unigolion)	Siaradwyr Cymraeg (%)	Ward Etholiadol	Poblogaeth (Unigolion)	Siaradwyr Cymraeg (%)
Tref Llandysul	1471	70	Llansanffraid	2426	55
Tregaron	1185	68	Llangybi	1710	55
Llanwenog	1832	65	Llanfarian	1403	55
Aberaeron	1480	64	Beulah	1586	54
Aberteifi-	1200	64	Pen-bryn	2039	52
Rhyd-y-fuwch					
Llanfihangel Ystrad	1990	63	Llandysiliogogo	1906	52
Aberteifi –Mwldan	1694	63	Melindwr	2107	52
Llanrhystud	1437	62	Llanbedr Pont Steffan	2803	51
Tirymynach	1817	60	Aberteifi –Teifi	1154	50
Lledrod	2172	59	Aber-porth	2434	49
Ystwyth	1943	59	Ceinewydd	1085	47
Llandyfrïog	1771	58	Aberystwyth	1904	43
			Bronglais		
Ciliau Aeron	1952	58	Y Borth	2175	43
Troed-yr-aur	1374	58	Llanbadarn Fawr-	1235	40
			Padarn		
Pen-parc	2290	58	Aberystwyth	2979	40
			Penparcau		
Trefeurig	1615	57	Faenor	2362	39
Llangeitho	1547	57	Aberystwyth - Rheidol	2404	35
Llanarth	1504	57	Aberystwyth - Gogledd	1931	31
Ceulan a Maes-	1860	56	Aberystwyth - Canol	2149	29
mawr					

---

<b>Capel Dewi</b>	1350	56	<b>Llanbadarn Fawr-Sulien</b>	1608	23
-------------------	------	----	-------------------------------	------	----

---

- 3.2.6 Mae'r dirywiad yng nghyfran y siaradwyr Cymraeg 3+ (pobl sy'n hŷn na thair blwydd oed) ymhell o fod yn unffurf ar draws y sir, a gwelir drwy ddadansoddi'r data'n fanwl fod rhai gwahaniaethau eithaf sylweddol rhwng wardiau etholiadol, gan fod prosesau gwahanol ar waith ar lefel leol (Tabl 3.2). Yn 2001, ac eithrio Capel Dewi, Lledrod, Llandyfrŷg, Ceulan a Maes-mawr, Beulah, Aberaeron a Thregaron, mae'r holl wardiau yn dangos cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg. Er nad oes yr un ward wedi dangos cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg fel cyfran o'r boblogaeth 3+, mae rhai wardiau fel y Borth, Llanybi, Aber-porth, Trefeurig a Llanfarian wedi dangos cynnydd o fwy na 10% yn nifer y siaradwyr Cymraeg. Fodd bynnag, nid yw cyfran y siaradwyr Cymraeg yn yr ardaloedd hyn ond wedi dirywio i raddau cymharol fach.
- 3.2.7 Mae'n bosibl bod y twf yn nifer y siaradwyr Cymraeg (Ffigur 3.3) yn ganlyniad yn rhannol i bolisïau addysg lleol hirsefydlog, yn ogystal â pholisïau addysg Cymraeg sydd wedi rhoi addysg drwy'r Gymraeg i'r rhan fwyaf o blant 0 - 15 oed yn ystod y degawd diwethaf. Bydd y broses addysg hon yn arwain at gynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg mewn grwpiau oedran penodol. Gallai hyn egluro'r ffaith bod nifer mawr o siaradwyr Cymraeg yn y Borth, er enghraifft, lle mae'r boblogaeth oedran ysgol ar gynnydd. Gellid dadlau nad yw'r siaradwyr Cymraeg newydd hyn yn defnyddio'r iaith yn yr un modd â 'siaradwyr coll' ugain neu ddeng mlynedd ar hugain yn ôl, yr oedd y Gymraeg yn iaith eu gwaith pob dydd a'u cymdeithas a'u diwylliant, na fyddent o bosibl wedi symud y tu allan i amgylchedd Cymraeg. Mae gwahaniaeth rhwng cyd-destun cymdeithasol y defnydd o'r iaith gan y siaradwyr 'newydd' hyn a chyd-destun blaenorol y defnydd o'r iaith mewn ardaloedd gwledig sawl degawd yn ôl. Fodd bynnag, dim ond drwy amrywiaeth o ymatebion y gellir cynnal neu wella iechyd yr iaith, a hynny'n cynnwys addysgu siaradwyr ail iaith, cynnal bywiogrwydd economaidd, cymdeithasol a diwylliannol cymunedau lleol, hybu defnydd o'r Gymraeg a rhugledd yn yr iaith drwy bolisïau lleol a chenedlaethol eraill, etc.

### Ffigur 3.3. Cyfran y siaradwyr Cymraeg yng Ngheredigion yn ôl grŵp oedran, yn cynnwys rhai mewn Addysg Uwch. (Cyfrifiad 2001).

Percentage	Canran
Speak Welsh	Yn siarad Cymraeg
No knowledge...	Dim gwybodaeth o'r Gymraeg
Understand spoken...	Yn deall Cymraeg llafar yn unig
3 to 4...	3 i 4
Age Range (Years)	Ystod Oedran (Blynyddoedd)

Percentage	Canran
Speak Welsh...	Yn siarad Cymraeg, nid yn ei darllen na'i hysgrifennu
Speak, read...	Yn siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg
Speak and read...	Yn siarad a darllen Cymraeg, nid yn ei hysgrifennu
3 to 4	3 i 4
Age Range (Years)	Ystod Oedran (Blynyddoedd)

3.2.8 Ffactor arall a allai ddylanwadu ar y defnydd o'r iaith yw'r gydnabyddiaeth gynyddol i fanteision economaidd y Gymraeg, gan gyflogwyr a chan gyflogeion. Yn ôl Bwrdd yr Iaith Gymraeg, mewn ymateb i ddisgwyliadau cynyddol eu cwsmeriaid mae cyflogwyr ledled Ceredigion, a Chymru'n gyffredinol – yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol – yn dod yn ymwybodol o'r manteision posibl o ddefnyddio'r iaith, fel:

- a. gwella ansawdd gwasanaethau i gwsmeriaid,
- b. denu cwsmeriaid newydd,
- c. cynyddu teyrngarwch cwsmeriaid,
- d. harneisio ewyllys da am gost gymharol isel,
- e. cael mantais wrth farchnata dros gystadleuwyr
- f. hybu gwaith cysylltiadau cyhoeddus.

3.2.9 I raddau cynyddol, mae cyrff ym mhob sector wedi bod yn cynnig mwy o wasanaethau dwyieithog ac, o ganlyniad, mae'r galw am bobl sydd â sgiliau dwyieithog wedi cynyddu. Cydnabyddir bod y gallu i siarad neu ysgrifennu yn Gymraeg ac yn Saesneg yn y gweithle'n sgil gwerthfawr. Gallai'r angen am sgiliau dwyieithog amrywio rhwng y naill gorff a'r llall, yn ôl ei leoliad, y math o wasanaeth y mae'n ei gynnig a'r modd y mae'n delio â'i gwsmeriaid, ac mae'r sector cyhoeddus yn arwain y ffordd.

3.2.10 Mae'n debygol y bydd y sefyllfa hon yn dal i ddatblygu dros y degawd nesaf yng Nghymru, mewn ymateb i ddymuniadau a disgwyliadau cwsmeriaid. Bydd swyddi ar bob lefel lle bydd y gallu i weithio'n ddwyieithog yn ddymunol, os nad yn hanfodol, a bydd effaith o ganlyniad i hyn ar iechyd yr iaith. Dyma un o'r prif ffactorau sy'n parhau i ysgogi'r galw am addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg, gan fod pobl ifanc a'u rhieni'n cydnabod gwerth economaidd y Gymraeg.

- 3.2.11 Mae iechyd y Gymraeg yng Ngheredigion yn cwmpasu llawer o faterion cymhleth. Gellid dadlau bod y Gymraeg mewn gwell sefyllfa fel iaith gymunedol, o fewn y cymunedau hynny lle bu cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg, a lle nad yw'r gyfran ond wedi dirywio ychydig; ond lle mae bywyd cymunedol yn dal yn hanfodol. Gellid dadlau, yn wir, y bydd iaith gymunedol, sy'n gallu tyfu gan ymaddasu i gyd-destunau cymdeithasol cyfnewidiol, sy'n defnyddio'r gronfa gynyddol o siaradwyr Cymraeg nad yw'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt, yn un a fydd mewn cyflwr iachach o lawer i ymateb i heriau newid cymdeithasol yn yr 21 ganrif.
- 3.2.12 Felly mae angen ystyried yr iaith Gymraeg fel rhan o'r broses gynllunio. Mae'r Cynllun Datblygu Lleol wedi gwneud hyn mewn nifer o ffyrdd.
- 3.2.13 Y ffordd bwysicaf y mae'r Cynllun Datblygu Lleol wedi ystyried yr iaith Gymraeg yw drwy ei Bolisiau Strategol. Er nad oedd yn bosibl canfod beth fyddai maint yr effaith o'r twf cyffredinol o 6,000 yn nifer y cartrefi newydd ar yr iaith Gymraeg, roedd yn glir y byddai prinder tai pe na fyddai twf yn digwydd, gan effeithio'n negyddol ar y rheini sydd mewn angen, y byddai llawer ohonynt yn siaradwyr Cymraeg. Felly, drwy ddarparu lefel briodol o dwf ledled y Sir, barnwyd y byddai'r Cynllun Datblygu Lleol yn creu cyfleoedd i bobl leol (y dangoswyd bod gwybodaeth o'r Gymraeg gan tua 50% ohonynt) i gael mynediad at dai, cyflogaeth a gwasanaethau lleol ac, felly, parhau i fyw yn yr ardal.
- 3.2.14 Daethpwyd i'r casgliad hefyd yn ystod y broses ei bod yn amhosibl dweud sut y byddai lefel benodol o dwf ar gyfer Anheddiad neu Grŵp Aneddiadau penodol, er enghraifft, y 2058 o dai a ddyrannwyd ar gyfer Aberystwyth, yn dylanwadu ar yr iaith. Fodd bynnag, mae'r modd y mae'r Strategaeth yn canoli twf ledled y sir mewn modd cynaliadwy, sy'n dyrannu lefel briodol o dwf ar gyfer y gwahanol feintiau o aneddiadau (51% ar gyfer Canolfannau Gwasanaethau Trefol, 24% ar gyfer Canolfannau Gwasanaethau Gwledig, a 25% ar gyfer lleoliadau eraill), yn cryfhau rhwydwaith cymunedau Ceredigion a'r iaith Gymraeg gyda hwy. Drwy leoli'r rhan fwyaf o dwf a datblygu yn y lleoliadau mwyaf cynaliadwy (y Canolfannau Gwasanaethau sydd wedi'u henwi yn y Cynllun Datblygu Lleol) dylid hybu cydlyniant cymunedol, hwyluso rhyngweithio cymunedol, cynnal gwasanaethau a chreu amgylchedd lle gellir defnyddio'r iaith o ddydd i ddydd. Yn yr aneddiadau sy'n gysylltiedig â'r Canolfannau Gwasanaethau, bwriad y Cynllun Datblygu Lleol yw caniatáu digon o ddatblygu i gwrdd â rhai o anghenion cymunedau lleol, gan ganiatáu rhywfaint o gyfle drwy hynny i bobl leol, sy'n siaradwyr Cymraeg gan mwyaf, i fyw a gweithio yn eu hardal leol. Cafwyd yn yr Arfarniad o Gynaliadwyedd y byddai pob un o'r polisïau hyn, sef S01: Strategaeth, S02: Canolfannau Gwasanaethau Trefol, S03: Canolfannau Gwasanaethau Gwledig, S04: Aneddiadau a Lleoliadau ar Wahân i Ganolfannau Gwasanaethau, S05: Darparu Cyfle ar gyfer Twf Economaidd, S06:



Darparu Cyfle ar gyfer Twf ym maes Tai a S07: Y targed o ran tai fforddiadwy, yn cael effaith gadarnhaol fach mewn perthynas â'r iaith Gymraeg.

- 3.2.15 Mae'n werth nodi na chafodd Polisi S08: Safleoedd wedi'u Neilltuo, ei asesu fel hyn, gan ei fod yn weithdrefnol ac na ellir ei asesu. Defnyddiwyd yr ymarferiad Asesu Safleoedd Cais i asesu effeithiau tebygol y safleoedd yr awgrymwyd eu neilltuo ar wahanol ffactorau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Penderfynwyd, gan nad yw'r Gymraeg yn endid ffisegol, na fyddai dewis un safle yn hytrach nag un arall mewn anheddiad penodol yn cael unrhyw effeithiau safle-benodol. Yr asesiad, felly, oedd y byddai'r holl safleoedd yn cael effaith niwtral ar Amcan Cynaliadwyedd 10: Hybu cymunedau drwy hybu'r iaith Gymraeg. Yn lle hynny, defnyddiwyd yr Amcan i asesu strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol yn gyffredinol, sy'n nodi lefel y twf a ragwelir a sut y byddai'n cael ei dosbarthu drwy'r Sir. Dim ond effeithiau cadarnhaol a gafwyd mewn cysylltiad â hyn.
- 3.2.16 Mae'r Cynllun Datblygu Lleol hefyd yn cynnwys nifer o bolisiâu penodol a fydd yn sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn ystyriaeth berthnasol yng ngham y cais cynllunio. Y polisiâu hyn yw DM02: Cymunedau Cynaliadwy a'r Iaith Gymraeg: Datganiadau ac Asesiadau (mae mwy o fanylion yn Adran 8); a DM08: Arwyddion Dwyieithog ac Enwau Llefydd. Mae mwy o wybodaeth am y rhain yn Adran 8. Codwyd mater arwyddion dwyieithog gan randdeiliaid fel mater a oedd yn allweddol wrth hyrwyddo'r iaith. Teimlwyd bod dulliau polisi blaenorol wedi bod yn rhy wan ac y dylai'r Cynllun Datblygu Lleol fabwysiadu dull mwy cadarn. Mae Polisi DM08 wedi adlewyrchu'r mater hwn.

## 4. Ymgysylltu

- 4.1.1 Ystyriwyd materion sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg drwy gydol proses y Cynllun Datblygu Lleol. Cynhaliwyd digwyddiadau cyffredinol gyda'r Rhanddeiliaid ar 6 Mehefin a 10 Gorffennaf 2008. Cynhaliwyd digwyddiad penodol i drafod polisi'r iaith Gymraeg ar 17 Mehefin 2008.
- 4.1.2 Drwy'r digwyddiadau hynny, cytunwyd bod angen dull tebyg i eiddo Cyngor Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri (gweler paragraff 2.7.1) ac, felly, ysgrifennwyd Amcan a Pholisi Strategol yr Iaith Gymraeg gyda'r dull hwnnw mewn golwg:

Amcan 8: Cefnogi datblygiad yr iaith Gymraeg a hyrwyddo cymunedau dwyieithog cynhwysol yng Ngheredigion.

Polisi Strategol 14: Mewn ardaloedd dethol, bydd Asesiadau iaith Gymraeg arbenigol yn cael eu treialu i benderfynu lle a phryd y byddai'n orau defnyddio asesiadau o'r fath.

- 4.1.3 Ar adeg yr ymgynghori ar y Strategaeth a Ffefrir, roedd ansicrwydd o hyd ynghylch pa mor ddefnyddiol fyddai Aseidiadau Iaith Gymraeg. Felly, penderfynwyd mynd am ddull mwy ceidwadol o dreialu'r aseidiadau mewn rhannau neilltuol o'r Sir, a monitro'r canlyniadau cyn eu cyflwyno yng ngweddill Ceredigion.
- 4.1.4 Ar ôl ymgynghori, cynhaliwyd ail ddigwyddiad penodol ar gyfer y rhanddeiliaid ynghylch yr iaith Gymraeg ar 25 Medi 2009, i edrych yn fwy manwl ar sut y gellid cynnal aseidiadau o'r fath. Un o'r materion a ystyriwyd oedd a ddylid defnyddio'r aseidiadau mewn un rhan o'r Sir yn unig (ardal neu ardaloedd treialu). Y teimlad ymysg Rhanddeiliaid, fodd bynnag, oedd y gallai treialu'r aseidiadau mewn rhannau'n unig o'r Sir fod yn broblemus. Er enghraifft, y teimlad oedd y gallai treialu'r dull gymell pobl i beidio â datblygu yn y rhannau hynny o'r Sir. Drwy ymgysylltu, roedd yn glir y dylai Fersiwn Adneuo'r Cynllun Datblygu Lleol ystyried cyflwyno'r aseidiadau ledled y Sir a monitro effeithiau'r polisi yn flynyddol (gweler yr Adran ar fonitro isod).

## **5. Goblygiadau unrhyw Ffactorau sy'n Sbarduno Newid**

- 5.1.1 Pennwyd y ffactorau sy'n sbarduno newid yn gynnar ym mhroses y Cynllun ac fe'u disgrifiwyd yn fersiwn y Papur Pwnc ar gyfer y Strategaeth a Ffefrir. Rhwng 1991 a 2001 bu cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn y sir yn rhannol o ganlyniad i gyflwyno dosbarthiadau Cymraeg i bawb o dan 16 oed. Mae'r duedd hon yn debygol o barhau gan fod polisiâu addysg mewn perthynas â'r Gymraeg wedi'u cryfhau'n ddiweddar (Strategaeth Iaith Gymraeg Ysgolion Ceredigion, Chwefror 2008) ac maent yn debygol o gael effaith bellach yn y blynyddoedd i ddod.
- 5.1.2 Mae'n debygol mai newid yn y boblogaeth fydd y ffactor mwyaf pwerus yng nghyfansoddiad ieithyddol-gymdeithasol y Sir. Bydd siaradwyr Cymraeg yn allfudo, a phobl ddi-Gymraeg yn mewnfudo, a bydd hynny'n effeithio ar y gyfran sy'n siarad yr iaith yn y Sir. Cymhlethir hyn ymhellach gan fewnfudo sy'n effeithio ar wardiau ac aneddiadau ar lefel leol.
- 5.1.3 Ar ôl ei fabwysiadu, daw'r Cynllun Datblygu Lleol ei hun yn ffactor a fydd yn sbarduno newid. Nod y Cynllun yw cefnogi a gwella'r defnydd o'r iaith mewn cymunedau a sicrhau na fydd datblygu'n cael effaith negyddol ar y defnydd a wneir arni. Nod strategaeth y Cynllun yw cryfhau cynaliadwyedd mewn Sir sy'n un wledig gan mwyaf, drwy ganoli datblygu mewn canolfannau allweddol ledled y Sir. Dylai hyn sicrhau ei bod yn haws i'r rheini mewn ardaloedd gwledig aros o fewn eu cymunedau ac felly gwrthweithio'r grymoedd sy'n tueddu i danseilio'r iaith, gan gynyddu cydlyniant cymunedol a hybu rhyngweithio cymunedol a'r defnydd o'r iaith o ddydd i ddydd. Mewn lleoliadau y tu allan i'r Canolfannau Gwasanaethau, nod y Cynllun yw cwrdd ag o leiaf rai o'r anghenion sy'n codi'n lleol drwy adael i bobl

leol, sydd ar y cyfan yn deall Cymraeg, fyw yn eu hardal leol. Bydd darparu Tai Fforddiadwy hefyd yn helpu i ddarparu tai i bobl leol y mae angen tai fforddiadwy arnynt.

## **6. Materion a fydd yn cael sylw yn y Cynllun Datblygu Lleol (gan gynnwys amcan o unrhyw gyfleoedd neu gyfyngiadau sy'n bodoli)**

- 6.1.1 Mae canllawiau cenedlaethol yn nodi'n glir fod disgwyl i'r system gynllunio fod o gymorth i gynnal lles yr iaith Gymraeg.
- 6.1.2 Gallai polisïau megis datblygu fesul cam gyfyngu ar yr effaith ar gymunedau presennol drwy atal llif sydyn o breswylwyr newydd, llawer ohonynt efallai yn ddi-Gymraeg. Mae hwn yn fater pwysig o ran integreiddio cymunedol yn gyffredinol, nid dim ond o ran yr iaith.
- 6.1.3 Mae'n bosibl y gallai polisïau tai fforddiadwy chwarae rhan fach i gynnal yr iaith Gymraeg drwy helpu pobl leol i brynu cartrefi yn y sir. Fodd bynnag, ni all polisïau o'r fath, yn ôl y canllawiau, wahaniaethu ar sail iaith ac, felly, ar y gorau, dim ond effaith fach a gaiff y rhain ar strwythurau ieithyddol yn y Sir.
- 6.1.4 Mae'n bwysig cydnabod bod yna wahaniaeth mawr rhwng yr ardaloedd sydd â'r gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg (Tref Llandysul, 70%) a'r ardaloedd sydd â'r gyfran isaf (Llanbadarn Fawr Sulien, 23%). Efallai, felly, y byddai gwahanol ddulliau polisi yn ddoeth, er enghraifft nid yw Cyd-Gynllun Datblygu Unedol Sir Benfro (Cyngor Sir Benfro a Pharc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro, 2006) fel arfer ond yn cymhwyso eu polisi iaith Gymraeg i wardiau cymunedol sydd â chyfran uwch na 30% o siaradwyr Cymraeg. Fodd bynnag, ar ôl trafod â Rhanddeiliaid (gweler Adran 4 uchod), y casgliad oedd y byddai gofyn am asesiad mewn rhai ardaloedd ond nid mewn eraill yn broblemus (mae mwy o fanylion yn Adran 8 yn y papur hwn).
- 6.1.5 Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a Chyngor Gwynedd wedi llunio 'Canllawiau Technegol: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg' (2007) a ddyfeisiwyd i gefnogi cymunedau lle mae 50% neu fwy o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg. Mae'r canllawiau hyn yn seiliedig ar y fethodoleg asesiad iaith a amlinellir yn 'Cynllunio a'r Iaith Gymraeg: y ffordd ymlaen' a gyhoeddwyd yn 2005 ac a luniwyd gan Lywodraeth Cymru ar y cyd â nifer o awdurdodau lleol. Treialwyd y canllawiau am 6 mis gan ddechrau fis Ebrill 2007, gyda'r nod o adrodd ar eu gweithrediad yn ystod gwanwyn / haf 2008. Gweler adran 4 am fwy o fanylion.
- 6.1.6 Ystyriwyd a ddylai Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion fabwysiadu dull tebyg.
- 6.1.7 Gallai lleoli datblygiadau'n eang hefyd gyfrannu at gefnogi'r iaith Gymraeg. Gweler paragraffau 3.2.13 a 3.2.14.

- 6.1.8 Bydd sicrhau digon o gyfleoedd i economi'r Sir dyfu yn helpu i gadw pobl ifanc. Dylai hyn helpu'r iaith gan mai'r grŵp oedran hwn a fydd wedi elwa o addysg iaith Gymraeg orfodol. Gweler paragraffau 3.2.13 a 3.2.14.
- 6.1.9 Mae rôl hefyd i annog busnesau preifat a chyhoeddus i ddefnyddio'r Gymraeg drwy arwyddion (gweler y Polisiâu isod).

### **Materion Allweddol y Cynllun Datblygu Lleol**

- 6.1.10 Ar draws pob pwnc, roedd cannoedd o faterion yn codi. Yna cafodd y materion hyn eu crynhoi ymhellach fel materion allweddol neu faterion i'w cynnwys yn nogfen y Cynllun Datblygu Lleol ei hun. Mae'r broses hon wedi helpu i nodi pa faterion allweddol sydd i gael sylw gan gyfleu'r materion mewn detholiad o bwyntiau cryno yn hytrach na bod angen i'r darllenydd ddarllen y cwbl. Er eu bod wedi eu crynhoi, y rhestr lawn o'r materion yw'r cyd-destun allweddol o hyd ar gyfer deall y mater(ion) allweddol. Felly, roedd y swyddogion yn dal i gyfeirio'n ôl at y rhestr lawn i sicrhau bod y mater allweddol a'i gyd-destun wedi cael sylw llawn wrth ddrafftio'r Cynllun Datblygu Lleol. Y mater allweddol yn Strategaeth a Ffefir y Cynllun Datblygu Lleol sy'n berthnasol i'r maes pwnc hwn oedd:

#### **Mater Allweddol 6: Yr Iaith Gymraeg**

Oherwydd bod mwy na 50% o'r boblogaeth yn deall Cymraeg, mae angen sicrhau, hyd y gallwn, fod unrhyw ddatblygiad yn meithrin ac yn cryfhau'r iaith.

- 6.1.11 Cafwyd sylwadau ar y materion hyn wrth ymgynghori ar y Strategaeth a Ffefir, ac mae manylion y sylwadau hynny a sut wnaeth yr Awdurdod Cynllunio Lleol ymateb iddynt i'w cael yn nogfennau ategol yr Adroddiad Ymgynghori Cychwynnol (2010). Roedd gwrthwynebiad i eiriad y Mater Allweddol, a ystyriwyd yn negyddol gan fod teimlad bod y geiriau 'hyd y gallwn' yn awgrymu nad yw'r Awdurdod Lleol yn credu bod cynllunio'n cael fawr o effaith ac felly bod angen helaethu'r Mater Allweddol. Barnwyd nad oedd hyn yn briodol gan fod y geiriad presennol yn cydnabod cyfyngiadau'r system gynllunio.
- 6.1.12 Cafwyd gwrthwynebiad arall a ofynnai am ddefnyddio canran 'y siaradwyr Cymraeg nad ydynt yn deall Cymraeg' mewn ystyriaethau cynllunio. Fodd bynnag, ni chredir ei bod yn fuddiol ceisio gwahaniaethu yn yr achos hwn rhwng y rheini sy'n siarad Cymraeg a'r rheini sy'n ei deall. Byddai didoli siaradwyr Cymraeg yn galw am ddiffiniad o'r hyn yw siaradwr Cymraeg, e.e. pa allu y mae'n rhaid i rywun ei gael i'w ystyried yn Siaradwr Cymraeg. Mae hefyd yn codi ystyriaethau ynghylch sut y defnyddir yr iaith mewn bywyd pob dydd, e.e. gallai pobl ei siarad heb ei defnyddio o gwbl. Yn ogystal â hyn, mae iechyd yr iaith yn galw am ystyried mwy na'r siaradwyr presennol yn unig. Dim ond drwy amrywiaeth o ymatebion y gellir cynnal neu wella iechyd yr iaith, a hynny'n cynnwys addysgu siaradwyr ail iaith,

cynnal bywiogrwydd economaidd, cymdeithasol a diwylliannol cymunedau lleol, hybu defnydd o'r Gymraeg a rhugledd yn yr iaith drwy bolisïau lleol a chenedlaethol eraill. Felly byddai cymryd canran y siaradwyr Cymraeg yn unig ystyriaeth yn gallu cyfyngu ar allu'r Cynllun i hybu'r defnydd o'r iaith.

- 6.1.13 Felly nid oedd y sylwadau hyn wedi arwain at unrhyw newidiadau yn y mater allweddol a bennwyd yn wreiddiol mewn perthynas â'r iaith Gymraeg felly cafodd ei ddwyn ymlaen heb ei newid i fersiwn Adneuo'r Cynllun fel KI 5.1.
- 6.1.14 Mae'r Mater Allweddol sy'n berthnasol i'r pwnc hwn yn ategu elfennau o'r Weledigaeth ar gyfer Ceredigion. O ran yr iaith Gymraeg, yn ôl y Weledigaeth "Bydd [Ceredigion] yn gartref i rwydwaith bywiog o gymunedau dwyieithog cysylltiedig, rhai trefol a gwledig, y mae eu trigolion yn mwynhau iechyd da a lles".
- 6.1.15 Cafwyd gwrthwynebiad i'r Mater Allweddol yn ystod yr Ymgynghoriad ar y Fersiwn Adneuo, sy'n gymwys i'r Cynllun cyfan. Cafwyd gwrthwynebiadau tebyg i Bolisïau fel S01, S02, S03, S04, S06, DM20 a rhai safleoedd a ddyrannwyd. Yn fyr, y gwrthwynebiad oedd nad yw'r Cynllun Datblygu Lleol wedi ystyried effaith y lefel twf arfaethedig ar yr iaith Gymraeg a'i diwylliant ac, o ganlyniad, fod y Cynllun Datblygu Lleol yn debygol o niweidio ei chymeriad a'i chynaliadwyedd.
- 6.1.16 Fodd bynnag, nid yw'r un o'r sylwadau hyn wedi arwain at newid yn y Cynllun Datblygu Lleol am y rhesymau canlynol:
- Mae'r Awdurdod Lleol o'r farn bod y cyfiawnhad y mae'n ei roi yn y 'Papur Pwnc: Tai (Fersiwn Cyflwyno)' ynghylch lefel y tai sydd i'w caniatáu mewn Canolfannau Gwasanaethau unigol yn dal yn ddilys ac yn gadarn.
  - Mae'r Awdurdod Lleol hefyd o'r farn bod y cyfiawnhad dros ddefnyddio dull y Strategaeth Anheddu, sydd wedi'i egluro yn y 'Papur Pwnc: Strategaeth Anheddu', yn dal yn ddilys ac yn gadarn.
  - Bod y Strategaeth Anheddu yn ystyried yr iaith ac, er y gallai fod yn amhosibl dweud sut y byddai lefel twf benodol ar gyfer Anheddiad neu Grŵp Aneddiadau penodol yn dylanwadu ar yr iaith, fod y modd y mae'r Strategaeth yn canoli twf ar draws y sir yn cryfhau'r rhwydwaith o gymunedau yng Ngheredigion ynghyd â'r iaith Gymraeg (mae mwy o fanylion ym mharagraffau 3.2.13 a 3.2.14).
  - Fel y mae'r papur pwnc hwn yn dangos, mae effaith y Cynllun Datblygu Lleol ar yr iaith Gymraeg a'i diwylliant wedi'i hystyried drwy gydol y broses o lunio'r cynllun ac, yn ogystal â hynny, mae 'Polisi DM02: Cymunedau Cynaliadwy a'r Iaith Gymraeg: Datganiadau ac Asesiadau', yn cynnig modd i fesur effeithiau datblygu, boed yng nghyd-destun tai neu fel arall, yng ngham y cais cynllunio ar yr iaith a'i diwylliant lle mae'r datblygiad ar safle sydd heb ei neilltuo neu sy'n mynd yn groes i'r Cynllun Datblygu Lleol.

- Bydd tai fforddiadwy yn ofynnol wrth ddatblygu pob safle sydd wedi'i neilltuo ar gyfer tai (gweler y Rhestrau o Safleoedd a Ddyrannwyd yng Nghyfrwl 2 y Cynllun Datblygu Lleol), a byddant yn dod â buddion synergidd am mai rhan o'r amcan yw ymateb i'r angen lleol am dai fforddiadwy.
- O ran darparu ar gyfer cyflogaeth, mae Polisi S05 yn dangos ymagwedd ganiataol at hybu datblygiadau cyflogaeth. Mae'r Cynllun yn cydnabod y bydd mwy na 60% o'r swyddi dichonol y gellid eu creu yn ystod cyfnod y cynllun yn rhai na fyddant yn addas i'w lleoli mewn parc busnes neu barc diwydiannol (gweithio gartref, busnesau bach, etc). Mae'r Cynllun yn cydnabod yn achos Canolfannau Gwasanaethau Gwledig sydd heb barc busnes neu barc diwydiannol eisoes, ei bod yn well cadw hyblygrwydd ar gyfer ystyried ceisiadau yn hytrach na dyrannu tir yn benodol. Felly, mae cefnogaeth i ddatblygu economaidd mewn aneddiadau llai (e.e. Canolfannau Gwasanaethau Gwledig), sy'n helpu i gynnal y gymuned leol ac, yn ei thro, yr iaith Gymraeg. Gweler y Papur Pwnc 'Cyflogaeth a'r Economi Wledig' lle mae cyfiawnhad llawn dros y dull hwn o weithredu.

## **7. Amcanion y Cynllun Datblygu Lleol**

- 7.1.1 Mae'r Adran ganlynol yn disgrifio sut mae'r Amcanion wedi datblygu yn ystod proses y Cynllun Datblygu Lleol. Fel rhan o'r Strategaeth a Ffefrir, rhoddwyd mwy o ystyriaeth i'r materion allweddol drwy ddefnyddio set o Amcanion ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol a fyddai o gymorth i ymdrin â'r materion a gwireddu'r Weledigaeth. Roedd yr Amcanion hyn yn ganlyniad i gyfuno nifer o wahanol ddulliau gweithredu.
- 7.1.2 Roedd gan Grŵp y Rhanddeiliaid Allweddol rôl bwysig i'w chwarae yn y broses hon a chyfarfu'r Grŵp ar 1 Hydref 2008 i drafod yr Amcanion arfaethedig. Yn ystod y cyfarfod, trafodwyd yr Amcanion arfaethedig a chafwyd sylwadau; cafwyd adborth hefyd drwy'r e-bost.
- 7.1.3 O ran yr Amcan sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg, roedd Grŵp y Rhanddeiliaid Allweddol yn fodlon ar yr amcan drafft a luniwyd.
- 7.1.4 Cyfeiriodd y swyddogion yn ôl hefyd at ddigwyddiadau'r Rhanddeiliaid a gynhaliwyd yn wreiddiol ar ddechrau'r broses, a helpodd i ategu gwaith ar y Strategaeth a Ffefrir yn gyffredinol.
- 7.1.5 Aseswyd Amcan y Cynllun Datblygu Lleol i weld a oedd yn gydnaws â'r Amcanion Cynaliadwyedd. Hynny yw, a yw'r camau y bydd angen eu cymryd i ganlyn Amcan y Cynllun Datblygu Lleol yn debygol o fod yr un fath â'r rheini a fyddai'n cyflawni'r Amcan Cynaliadwyedd. Mae'r asesiad hwn hefyd yn gyfle i ystyried fel arall, h.y. a fydd canlyn yr Amcan Cynaliadwyedd yn helpu i ganlyn Amcan y Cynllun Datblygu Lleol. Dangosodd yr asesiad fod Amcan Iaith Gymraeg y Cynllun Datblygu Lleol un ai'n gydnaws â'r Amcan Cynaliadwyedd neu nad

oedd perthynas rhyngddynt. Felly, ni wnaethpwyd unrhyw newidiadau yn y geiriad.

- 7.1.6 Roedd yr Amcan a gafodd ei gynnwys yn Strategaeth a Ffefrir y Cynllun Datblygu Lleol fel a ganlyn:

Amcan 8: Cefnogi datblygiad yr Iaith Gymraeg a hyrwyddo cymunedau dwyieithog cynhwysol yng Ngheredigion.

- 7.1.7 Rhoddir manylion y sylwadau a gafwyd ynghylch yr Amcan hwn fel rhan o'r ymgynghori ar Strategaeth a Ffefrir y Cynllun Datblygu Lleol, ynghyd ag ymateb yr Awdurdod Cynllunio Lleol, yn y papurau sydd gyda'r Adroddiad Ymgynghori Cychwynnol (2010). Fel y gwelir o'r tabl hwnnw, ni arweiniodd y sylwadau hyn at newid y geiriad o gwbl gan eu bod yn cefnogi'r geiriad presennol.
- 7.1.8 O ystyried yr uchod i gyd, penderfynwyd cyflwyno'r Amcan fel yr oedd ar gyfer Fersiwn Adneuo'r Cynllun Datblygu Lleol. Ni chafwyd unrhyw sylwadau yn ystod yr ymgynghori ar Fersiwn Adneuo'r Cynllun Datblygu Lleol mewn perthynas â'r amcan hwn.

## **8. Datblygu Polisiâu'r Cynllun Datblygu Lleol**

- 8.1.1 Mae'r Adran sy'n dilyn yn trafod sut y datblygodd yr Awdurdod Cynllunio Lleol y polisiâu yn y Cynllun Datblygu Lleol sy'n ymwneud â'r maes pwnc hwn. Yn rhan gyntaf yr Adran trafodir sut y datblygodd y polisiâu hyd at a chan gynnwys y Fersiwn Adneuo. Yn rhan olaf yr Adran ystyrir a oedd angen gwneud unrhyw newidiadau pellach ar ôl y Fersiwn Adneuo.

### **8.2 Hyd at a chan gynnwys y Fersiwn Adneuo**

- 8.2.1 Datblygwyd Polisi Strategol wrth lunio'r Strategaeth a Ffefrir drwy gyfeirio at y materion a oedd wedi eu nodi wrth wneud hynny ynghyd â'r sylwadau a'r awgrymiadau a gododd yn y digwyddiadau ymgysylltu a gan y Grŵp Rhanddeiliaid Allweddol.
- 8.2.2 Nod y polisi oedd cael modd i'r Cynllun Datblygu Lleol gyflawni'r Amcan drwy greu ffordd o gasglu gwybodaeth am effaith datblygu ar yr iaith. Yna, byddid yn defnyddio'r wybodaeth honno i hysbysu'r awdurdod lleol am y math o amodau cynllunio a allai fod yn ofynnol i sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn cael ei hystyried yn briodol fel rhan o'r datblygiad dan sylw.
- 8.2.3 Cafodd arfarniad o'r Polisi Strategol ei wneud drwy ddefnyddio fframwaith yr Arfarniad o Gynaliadwyedd / Asesiad Strategol Amgylcheddol, tebyg i'r un a ddatblygwyd ar gyfer proses Gwmpasu'r Arfarniad o Gynaliadwyedd. Yn ystod yr arfarniad, aseswyd ac ystyriwyd yr effeithiau gan gynnwys yr amserlen, perfformiad, effeithiau eilaidd, synergyddol a chronnus, ynghyd â'r berthynas briodol rhyngddynt. Dangosodd yr asesiad mai effaith gadarnhaol

neu niwtral yn unig a fyddai ar yr Amcan Cynaliadwyedd o du Polisi Strategol yr Iaith Gymraeg. Felly, ni wnaethpwyd unrhyw newidiadau yn ei eiriad.

#### 8.2.4 Roedd Polisi'r Strategaeth a Ffefrir fel a ganlyn:

Polisi Strategol 14: Mewn ardaloedd dethol, bydd Asesiadau Iaith Gymraeg arbenigol yn cael eu treialu i benderfynu lle a phryd y dylid defnyddio asesiadau o'r fath.

8.2.5 Roedd y Strategaeth a Ffefrir yn cynnwys 25 o Bolisiâu Strategol i gyd. Bwriad y polisiâu hynny oedd dangos y materion polisi allweddol y byddai angen eu datblygu a rhoi sylw pellach iddynt yn Fersiwn Adneuo'r Cynllun Datblygu Lleol. Felly, mae'r polisiâu yn y Fersiwn Adneuo wedi datblygu o'r 25 polisi sydd yn y Strategaeth a Ffefrir. Fodd bynnag, ni chyfeirir at y polisiâu sydd yn y Fersiwn Adneuo fel 'polisiâu strategol', yn yr un ystyr. Yn hytrach, mae'r polisiâu'n perthyn i un o 3 chategori ar sail eu hamcan:

- 'Polisiâu Strategaeth' (Adran 6): mae'r polisiâu hyn yn cyflwyno dull y Strategaeth yn nhermau lleoliad a lefel y twf;
- Mathau Penodol o Gynigion Defnydd Tir (Adran 7): polisiâu sy'n nodi'r ystyriaeth yng nghyswllt mathau penodol o ddefnydd tir, manwerthu, tai ac ati;
- Polisiâu Rheoli Datblygu (Adran 8): polisiâu y dylid eu hystyried pa bynnag fath o ddatblygiad sy'n cael ei gynniig.

8.2.6 Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn nodi'n glir fod angen pob un o'r 3 chategori polisi i gyflawni'r Weledigaeth ac, felly, ni chyfeirir at yr un ohonynt fel rhai Strategol fel y cyfryw. Fodd bynnag, mae'r polisiâu sydd yn Adran 6 yn nodi rhai polisiâu allweddol sy'n ategu'r Strategaeth gyfan, materion sy'n ymwneud â lefel y twf a'i ddsbarthiad. Mae'r polisiâu hynny'n sail i lawer o'r polisiâu sy'n dilyn yn adrannau 7 ac 8 y Cynllun Datblygu Lleol.

8.2.7 Mae'r testun canlynol yn egluro ymhellach sut y mae'r awdurdod lleol wedi datblygu polisi'r iaith Gymraeg a chymunedau dwyieithog rhwng y Strategaeth a Ffefrir a'r Fersiwn Adneuo.

8.2.8 Rhoddir manylion y sylwadau a gafwyd yng nghyswllt y Polisi Strategol hwn fel rhan o'r ymgynghori ynghylch Strategaeth a Ffefrir y Cynllun Datblygu Lleol, ynghyd ag ymateb yr Awdurdod Cynllunio Lleol, yn y papurau sydd gyda'r Adroddiad Ymgynghori Cychwynnol (2010). Fel y gwelir o'r adroddiad hwnnw, ni arweiniodd y sylwadau hynny ar eu pen eu hunain at newid y geiriad. Teimlai'r Awdurdod Cynllunio Lleol nad oedd y geiriad a gynigiwyd yn rhoi eglurhad pellach nac yn gwella geiriad y polisi.

8.2.9 Fodd bynnag, o ran y Fersiwn Adneuo, ar sail sylwadau'r rhanddeiliaid, y farn oedd y byddai angen newid y polisi. Roedd hyn am fod y Grŵp Rhanddeiliaid wedi cytuno y byddai'n anodd treialu'r



asesiadau. Fodd bynnag, erys ethos polisi'r Strategaeth a Ffefrir yr un fath, sef bod angen asesu'r goblygiadau posibl i'r iaith Gymraeg. Roedd yr ethos hwn wedi ei drosi'n bolisi DM02: Cymunedau Cynaliadwy a'r iaith Gymraeg: Datganiadau ac Asegiadau. Drwy ymgynghori â'r Rhanddeiliaid, penderfynwyd ehangu cwmpas y polisi i gynnwys materion cymunedol hefyd, ar y sail resymegol bod iaith a chymunedau yn annatod. Mae'r polisi diwygiedig yn awr yn darllen fel a ganlyn:

**Polisi DM02:  
Cymunedau Cynaliadwy a'r iaith Gymraeg: Datganiadau ac Asegiadau**

Caniateir datblygiad ar yr amod nad yw'n debygol, oherwydd ei faint, ei raddfa neu ei leoliad, o gael effaith negyddol ar gydlyniant cymdeithasol, ieithyddol neu ddiwylliannol cymunedau.

Er mwyn gallu gwneud penderfyniad cytbwys am yr effeithiau posibl o ddatblygiad arfaethedig ar gydlyniant cymdeithasol, ieithyddol neu ddiwylliannol cymuned, bydd angen i geisiadau am ddatblygiadau newydd gynnwys:

1. Datganiad Cymunedol ac Ieithyddol ar gyfer datblygiad ar raddfa fach; neu
2. Asegiad mwy manwl ar ffurf Asegiad o'r Effaith ar Gymuned ac iaith ar gyfer datblygiadau sydd ar raddfa fwy.

Rhaid i Ddatganiadau ac Asegiadau fod yn unol â'r Canllawiau Cynllunio Atodol: Y Gymuned a'r iaith Gymraeg.

8.2.10 Er bod asegiadau'r Arfarniad o Gynaliadwyedd y Cynllun wedi rhoi canlyniadau amhendant gan mwyaf, disgwylir y bydd y polisi o gymorth i sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn cael ei hystyried yn briodol yng ngham y cais cynllunio. Bydd monitro a gyflawnir drwy broses y Cynllun Datblygu Lleol a'r Asegiad o Gynaliadwyedd / Asegiad Strategol Amgylcheddol yn fodd i ddangos i'r awdurdod cynllunio sut y mae'r polisi'n gweithio a beth fydd yr effeithiau tebygol yn y dyfodol.

8.2.11 Er bod Polisi DM02 yn ymdrin â'r elfennau allweddol yng nghyswllt asesu effaith bosibl unrhyw ddatblygiad ar yr iaith Gymraeg, nid yw'n delio ag un o'r materion allweddol eraill a godwyd gan Rhanddeiliaid – sef arwyddion dwyieithog. Felly, mae'r awdurdod lleol wedi cynnwys polisi DM08: Arwyddion Dwyieithog ac Enwau Llefydd. Nod y Polisi yw annog pobl i ddefnyddio enwau Cymraeg ar gyfer datblygiadau a hysbysebion newydd y mae angen caniatâd cynllunio ar eu cyfer. Dywedodd y Rhanddeiliaid eu bod am weld arwyddion dwyieithog yn cael ei wneud yn un o'r gofynion gorfodol, ond nid oedd hyn yn bosibl oherwydd na fyddai'n unol â'r canllawiau cenedlaethol.

- 8.2.12 Nodwyd eisoes ym mharagraff 3.2.14 ei bod yn amhosibl canfod beth fyddai maint yr effaith o lefel gyffredinol y twf o 6,000 yn nifer y cartrefi newydd ar yr iaith Gymraeg. Roedd yn glir, er hynny, y byddai prinder tai pe na fyddai twf yn digwydd, gan effeithio'n negyddol ar y rheini sydd mewn angen, y byddai llawer ohonynt yn siaradwyr Gymraeg. Byddai hyn yn wir am bob math o dwf, nid tai'n unig. Felly, drwy ddarparu lefel twf briodol ledled y Sir, barnwyd y byddai'r Cynllun Datblygu Lleol yn creu cyfleoedd i bobl leol (y dangoswyd bod gwybodaeth o'r Gymraeg gan oddeutu 50% ohonynt) i gael mynediad at dai, cyflogaeth a gwasanaethau lleol ac felly parhau i fyw yn yr ardal.
- 8.2.13 Mae paragraff 3.2.14 uchod hefyd yn egluro nad oedd yn bosibl dweud sut y byddai lefel twf benodol ar gyfer Anheddiad neu Grŵp Aneddiadau penodol, er enghraifft, y 2058 o dai a ddyrannwyd ar gyfer Aberystwyth, yn dylanwadu ar yr iaith. Fodd bynnag, at hynny mae'r modd y mae'r strategaeth yn canoli twf ar draws y sir, gan ddyrannu lefel twf briodol i aneddiadau o wahanol faint (51% ar gyfer Canolfannau Gwasanaethau Trefol, 24% ar gyfer Canolfannau Gwasanaethau Gwledig, a 25% ar gyfer lleoliadau eraill), yn cryfhau rhwydwaith cymunedau Ceredigion a'r iaith Gymraeg gyda hwy.
- 8.2.14 Yn yr Arfarniad o Gynaliadwyedd cafwyd y byddai polisiau S01: Strategaeth, S02: Canolfannau Gwasanaethau Trefol, S03: Canolfannau Gwasanaethau Gwledig, S04: Aneddiadau a Lleoliadau ar Wahân i Ganolfannau Gwasanaethau, S05: Darparu Cyfle ar gyfer Twf Economaidd, S06: Darparu Cyfle ar gyfer Twf ym maes Tai a S07: Y targed o ran tai fforddiadwy, i gyd yn cael effaith gadarnhaol fach mewn perthynas â'r iaith Gymraeg. Mae'n werth nodi na aseswyd Polisi S08: Safleoedd wedi'u Neilltuo fel hyn, gan ei fod yn weithdrefnol ac na ellir ei asesu.
- 8.2.15 Mae materion a drafodwyd yn y Papur Pwnc hwn (canllawiau, tystiolaeth, cyd-destun lleol, etc) wedi dylanwadu ar eiriad y polisiau yn y Cynllun Datblygu Lleol.

### **8.3 Newidiadau mewn Polisi ar ôl y Fersiwn Adneuo**

- 8.3.1 Mae'r prif bryderon a fynegwyd mewn ymateb i'r ymgynghori ar Fersiwn Adneuo'r Cynllun Datblygu Lleol wedi'u disgrifio'n llawn yn yr Adroddiad Ymgynghori 2011 (gweler yr Atodiad). Mae'r Adroddiad Ymgynghori hefyd yn nodi sut y gellir gweld ymateb yr Awdurdod Cynllunio Lleol i sylwadau penodol a gyflwynwyd.
- 8.3.2 Cafwyd sylwadau o blaid ac yn erbyn polisiau'r iaith Gymraeg yn ystod yr ymgynghori ar y Fersiwn Adneuo. Fodd bynnag, y sylw mwyaf cyffredin a gafwyd yng nghyswllt y pwnc hwn oedd nad oedd y Cynllun Datblygu Lleol yn ystyried yr iaith Gymraeg ac y byddai'r lefel twf arfaethedig yn niweidiol. Trafodir y rhain isod:

## Yr Iaith Gymraeg a'r Cynllun Datblygu Lleol

Fel y nodwyd eisoes, cafwyd nifer o wrthwynebiadau i wahanol adrannau o'r Cynllun Datblygu Lleol, yn datgan nad yw'r Cynllun Datblygu Lleol wedi ystyried effaith y lefel twf arfaethedig ar yr iaith Gymraeg a'i diwylliant ac, o ganlyniad, fod y Cynllun Datblygu Lleol yn debygol o niweidio ei chymeriad a'i chynaliadwyedd. Fel y nodwyd yn barod, ni arweiniodd yr un o'r gwrthwynebiadau hyn at newid y Cynllun Datblygu Lleol, a rhoddir y rhesymau am hyn yn Adran 8.2 o'r ddogfen hon.

### DM02: Cymunedau Cynaliadwy a'r Iaith Gymraeg: Datganiadau ac Aseidiadau

- 8.3.3 Cafwyd nifer o wrthwynebiadau i'r polisi hwn, y mwyafrif ohonynt gan un asiant yn cynrychioli nifer o gleientiaid, a'r rhain fwyaf o'r gwrthwynebiadau'n cwyno bod y polisi'n amwys ac nad oedd yn glir pryd yr oedd angen datganiadau ac aseidiadau. Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn anghytuno â'r pwyntiau hynny gan ei fod o'r farn bod y testun sy'n ategu'r polisi'n disgrifio'r gofynion yn glir iawn, gan ei fod yn datgan ym mharagraffau 8.20 a 8.22 pa bryd y byddai angen datganiadau ac aseidiadau. Yn ogystal â hyn, darparwyd Canllawiau Cynllunio Atodol drafft gyda'r Cynllun Datblygu Lleol yn Atodiad 1 i Bapur Cefndir Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion: Canllawiau Cynllunio Atodol: Trosolwg a Fframweithiau Drafft (2010), a oedd yn ailadrodd y wybodaeth a roddwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol ac yn cynnwys manylion ynghylch lefel y manylder a ddisgwyllir mewn datganiad neu asesiad. Felly, ni wnaethpwyd unrhyw newid mewn ymateb i'r gwrthwynebiadau hyn. Fodd bynnag, ar ôl ystyried, teimlai'r awdurdod lleol y gellid gwneud mwy i egluro'r mater, ac felly mae'r Newid Penodol canlynol (FC/067/PolDM02) wedi'i awgrymu ar gyfer y polisi:

Caniateir datblygu **nad yw ei effaith wedi'i hasesu eisoes wrth lunio'r cynllun** ar yr amod nad yw'n debygol, oherwydd ei faint, ei raddfa na'i leoliad, o gael effaith negyddol ar gydlynid cymdeithasol, ieithyddol neu ddiwylliannol cymunedau.

Er mwyn gallu penderfynu ar sail gwybodaeth a allai datblygiad arfaethedig gael effaith ar gydlynid cymdeithasol, ieithyddol neu ddiwylliannol cymunedau, bydd gofyn i geisiadau am ddatblygiadau newydd **ar safleoedd ar hap, neu ar safleoedd a ddyrannwyd os nad ydynt yn gwbl unol â'r CDLI**, gynnwys:

1. Datganiad Cymunedol ac Ieithyddol mewn perthynas â datblygiad ar raddfa fach; neu
2. Aseiad mwy manwl ar ffurf Aseiad o'r Effaith Gymunedol ac Ieithyddol mewn perthynas â datblygiadau ar raddfa fwy.

- 8.3.4 Mae'r newid hwn yn sicrhau ei bod yn glir, fel y nodwyd ym mharagraff 8.20 o'r Cynllun Datblygu Lleol, na fydd y datganiadau ac

asesiadau'n ofynnol fel arfer mewn cysylltiad â safleoedd a ddyrannwyd, gan fod effaith y datblygiadau hyn ar yr iaith Gymraeg a'i diwylliant wedi'i hystyried eisoes drwy broses y Cynllun Datblygu Lleol.

#### **DM08: Arwyddion Dwyieithog ac Enwau Llefydd**

- 8.3.5 Dim ond un sylw a gafwyd mewn cysylltiad â pholisi DM08, yn gofyn am newid testun paragraff 8.86 i wneud y paragraff yn fwy ffeithiol gywir yn ei gyfeiriad at haen Tirwedd Ddiwylliannol LANDMAP. O ganlyniad i hyn cafwyd Mân Newid yn y Cynllun Datblygu Lleol i weithredu'n unol â'r cais hwn.

## **9. Canllawiau Cynllunio Atodol**

- 9.1.1 Oherwydd cymhlethdod y gofynion sy'n ymwneud â Datganiadau Cymunedol ac Ieithyddol a'r Aseadau o'r Effaith ar Gymuned ac Iaith, bydd canllawiau manwl ar gael ar ffurf Canllawiau Cynllunio Atodol.
- 9.1.2 Bydd y Canllawiau Cynllunio Atodol hyn yn rhoi arweiniad cyffredinol a fydd yn hybu Gweledigaeth yr Awdurdod a byddant yn egluro disgwyliadau'r Awdurdod o ran aseadau. Bydd y Canllawiau Cynllunio Atodol yn ffordd o wneud fel a ganlyn:
- a. Codi ymwybyddiaeth ymhlith darpar ddatblygwyr bod angen rhoi ystyriaeth lawn i'r cysylltiadau rhwng datblygiad a chymeriad cymunedau;
  - b. Nodi cynigion datblygu a fydd, o'r cychwyn cyntaf, yn cynnal neu'n cyfoethogi patrwm cymdeithasol, ieithyddol a diwylliannol cymunedau;
  - c. Nodi cynigion datblygu y gellir eu haddasu o ganlyniad i drafodaethau yn rhai sy'n cynnal neu'n cyfoethogi patrwm cymdeithasol, ieithyddol a diwylliannol cymunedau;
  - d. Nodi eithriadau lle dengys tystiolaeth nad oes cyfle i addasu'r cynnig mewn ffordd a fyddai'n lleihau ei effaith ar batrwm cymdeithasol, ieithyddol a diwylliannol y gymuned a lle mae cyfiawnhad dros argymell bod y cais cynllunio'n cael ei wrthod.
- 9.1.3 Bydd y Canllawiau Cynllunio Atodol yn cael eu datblygu ac ymgynghorir arnynt yn fuan ar ôl mabwysiadu'r Cynllun. Fodd bynnag, mae drafft ynghlwm wrth y ddogfen Papur Cefndir Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion: Canllawiau Cynllunio Atodol a Fframweithiau Drafft: Fersiwn Cyflwyno (Cyngor Sir Ceredigion, 2011d) i gynnig dealltwriaeth o oblygiadau'r canllawiau ar gyfer datganiadau / aseadau.

## **10. Monitro**

- 10.1.1 Ar ôl mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol, rhaid i'r Awdurdod Cynllunio Lleol anfon Adroddiad Monitro Blynyddol i Lywodraeth Cymru bob blwyddyn. Bydd yr adroddiad hwn yn ystyried pa mor

llwyddiannus y mae'r Cynllun wedi bod yn cwrdd ag Amcanion y Cynllun.

- 10.1.2 Er mwyn i'r monitro hwn fod yn ystyrllon ac yn ddefnyddiol, rhaid i bethau gael eu mesur. Gallai fod yn anodd mesur llwyddiant y polisiâu iaith Gymraeg oherwydd bod amryw o wahanol ffactorau'n codi, llawer ohonynt heb gysylltiad â chynllunio defnydd tir, a allai effeithio ar ddatblygiad yr iaith.
- 10.1.3 Bydd y monitro'n cael ei wneud drwy'r Cynllun Datblygu Lleol a'r Arfarniad o Gynaliadwyedd.
- 10.1.4 Mae'r Cynllun yn cyflwyno fframwaith ar gyfer monitro effaith Polisiâu iaith Gymraeg y Cynllun:
  - a. bydd DM02 a DM03 yn cael eu monitro drwy ganran y datblygiadau newydd a gwblheir gydag Enwau Llefydd Cymraeg. Targed yr agwedd hon ar y monitro fydd gweld mwy o ddatblygiadau newydd gydag enwau Cymraeg arnynt;
  - b. bydd DM02 hefyd yn cael ei fonitro drwy astudiaethau achos i nodi cysylltiad rhwng gofynion argymhellion yr asesiadau a'r datganiadau Cymuned ac iaith Gymraeg, ac amodau cynllunio.
- 10.1.5 Mae Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yn cynnwys rhestr o ddangosyddion posibl y gellid eu defnyddio i fonitro llwyddiant y polisiâu. Mae'r rhain yn cynnwys:
  - a. Canran a nifer y rhai sy'n siarad Cymraeg sydd (i) yn 3+ oed (ii) rhwng 3 a 15 oed.
  - b. (i) nifer a (ii) canran y disgyblion sy'n gymwys am asesiad, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, sy'n derbyn Asesiad Athro yn Gymraeg (iaith gyntaf): (i) ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 a (ii) ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3.
  - c. Canran yr arwyddion dwyieithog.
- 10.1.6 Os oedd y monitro'n awgrymu bod y polisi'n aneffeithiol neu'n ddiangen, gellid ei ddiwygio wedyn ar adeg ei adolygu.

## Atodiad 1 - Dogfennau Cyfeirio

<b>Awdur a Dyddiad</b>	<b>Teitl ac ati</b>
Aitchison, J. a Carter, H. 1994	A Geography of the Welsh language 1961-1991, Gwasg Prifysgol Cymru Caerdydd, Caerdydd.
<b>Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri</b>	Canllawiau Technegol: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg
Bolsom, D. 1985	The Three-Wales Model, <i>The National Question Again - Welsh Political Identity in the 1980s</i> , J. Osmond (gol.), Gomer, Caerdydd
<b>Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 2004</b>	Lledaenu'r Neges: Yr Iaith Gymraeg 2001
<b>Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 2007</b>	Trosglwyddo Iaith mewn Teuluoedd Dwyieithog
<b>Cyngor Sir Benfro ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro, 2006</b>	Cyd-Gynllun Datblygu Unedol Sir Benfro 2000-2016
<b>Cyngor Gwynedd, 2009</b>	Cynllun Datblygu Unedol Cyngor Gwynedd
<b>Cyngor Sir Ceredigion, 2003</b>	Ceredigion 2020: Y Strategaeth Gymunedol
<b>Cyngor Sir Ceredigion, 2006a</b>	Cynllun Datblygu Unedol Ceredigion 2001-2016 Diwygiadau Arfaethedig
<b>Cyngor Sir Ceredigion, 2006b</b>	Cynllun Iaith Gymraeg Ceredigion 2006-2009
<b>Cyngor Sir Ceredigion, 2008</b>	Strategaeth Iaith Gymraeg Ysgolion Ceredigion
<b>Cyngor Sir Ceredigion, 2011a</b>	Papur Pwnc: Tai (Fersiwn Cyflwyno)
<b>Cyngor Sir Ceredigion, 2011b</b>	Papur Pwnc: Strategaeth Anheddu (Fersiwn Cyflwyno)
<b>Cyngor Sir Ceredigion, 2011c</b>	Papur Pwnc: Cyflogaeth a'r Economi Wledig (Fersiwn Cyflwyno)
<b>Cyngor Sir Ceredigion, 2011d</b>	Papur Cefndir Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion: Canllawiau Cynllunio Atodol a Fframweithiau Drafft (Fersiwn Cyflwyno)
<b>Llywodraeth Cynulliad Cymru, 1997</b>	Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 20: Yr Iaith Gymraeg (Cynlluniau Datblygu Unedol a Chynllunio)
<b>Llywodraeth Cynulliad Cymru, 1998</b>	Cylchlythyr Cynllunio 53/88 "Yr Iaith Gymraeg: Cynlluniau Datblygu a Rheoli Cynllunio"

<b>Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2002</b>	Polisi Cynllunio Cymru
<b>Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2003</b>	Iaith Pawb: Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyeithog, 2003
<b>Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2004</b>	Cynllun Gofodol Cymru: Pobl, Lleoedd, Dyfodol
<b>Llywodraeth Cynulliad Cymru, a chyrff eraill, 2005</b>	Cynllunio a'r Iaith Gymraeg: y ffordd ymlaen
<b>Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2006</b>	Cynllun Iaith Gymraeg
<b>Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2007</b>	Iaith Pawb a'r Adroddiad Blynyddol ar Gynllun yr Iaith Gymraeg 2006-2007
<b>Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008</b>	Diweddariad Cynllun Gofodol Cymru 2008
<b>Llywodraeth EM, 1993</b>	Deddf yr Iaith Gymraeg (1993)
Tewdwr-Jones, M., Gallent, N. a Mutale, E., 2004	Linguistic Impact Assessment Research Study
<b>Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2001</b>	Cyfrifiad 2001

**Atodiad 2 – Tabl o'r rhai a fu'n cyfrannu**

<b>Pobl / Sefydliad y cysylltwyd â nhw</b>	<b>Rheswm / Canlyniad y Cyswllt</b>	<b>Dyddiad y Cyswllt</b>
Adran Cynllunio at y Dyfodol a Pholisi Cyngor Gwynedd	Ymchwil i ddulliau polisi ar yr Iaith Gymraeg. Ymateb gyda dogfennau a dolenni cyswllt i bolisïau perthnasol.	16/01/2008
Adran Cynllunio at y Dyfodol a Pholisi, Cyngor Sir Benfro	Ymchwil i ddulliau polisi ar yr Iaith Gymraeg. Ymateb gyda dogfennau a dolenni cyswllt i bolisïau perthnasol.	16/01/2008
Adran Cynllunio at y Dyfodol a Pholisi, Parc Cenedlaethol Eryri	Ymchwil i ddulliau polisi ar yr Iaith Gymraeg. Ymateb gyda dogfennau a dolenni cyswllt i bolisïau perthnasol.	16/01/2008
Swyddog Prosiect, CERED	Mae CERED yn cyflawni cyfres o astudiaethau ar ffurf proffiliau lleol o'r Iaith Gymraeg. Rwyf wedi trefnu i'r wybodaeth gael ei hanfon ataf.	21/01/2008
Adran Cynllunio at y Dyfodol a Pholisi, Cyngor Sir Ddinbych	Ymchwil i ddulliau polisi ar yr Iaith Gymraeg. Ymateb gyda dogfennau a dolenni cyswllt i bolisïau perthnasol.	21/01/2008
Adran Cynllunio at y Dyfodol a Pholisi, Cyngor Sir Caerfyrddin	Ymchwil i ddulliau polisi ar yr Iaith Gymraeg. Ymateb gyda dogfennau a dolenni cyswllt i bolisïau perthnasol.	30/01/2008
Rhanddeiliaid	Cyfarfod gyda rhanddeiliaid i drafod amcanion a gweledigaeth y Cynllun Datblygu Lleol. Gwybodaeth wedi'i derbyn am ddyheadau'r rhanddeiliaid o ran yr Opsiynau ar gyfer y Weledigaeth, Amcanion a Pholisïau.	06/06/2008
Rhanddeiliaid	Digwyddiad penodol i drafod polisi Iaith Gymraeg gyda rhanddeiliaid o Geredigion ac awdurdodau cyfagos. Gwybodaeth wedi'i derbyn am ddulliau a ddefnyddiwyd gan awdurdodau lleol eraill a daethpwyd i gytundeb ar ba ddull oedd angen i Gyngor Sir	17/06/2008



	Ceredigion ei ddilyn.	
Rhanddeiliaid	Cyfarfod gyda rhanddeiliaid i drafod amcanion a gweledigaeth y Cynllun Datblygu Lleol. Gwybodaeth wedi'i derbyn am ddyheadau'r rhanddeiliaid o ran yr Opsiynau ar gyfer y Weledigaeth, Amcanion a Pholisïau.	10/07/2008
Rhanddeiliaid Allweddol	Cyfarfod gyda'r Grŵp Rhanddeiliaid Allweddol i drafod yr opsiynau allweddol ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol. Gwybodaeth wedi'i derbyn am ddyheadau'r rhanddeiliaid o ran yr Opsiynau ar gyfer y Weledigaeth, Amcanion a Pholisïau.	15/09/2008
Rhanddeiliaid Allweddol	Cyfarfod gyda'r Grŵp Rhanddeiliaid Allweddol i drafod yr opsiynau allweddol ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol. Gwybodaeth wedi'i derbyn am ddyheadau'r rhanddeiliaid o ran yr Opsiynau ar gyfer y Weledigaeth, Amcanion a Pholisïau.	1/10/2008
Aelodau'r Cyngor	Amcanion ac Opsiynau wedi eu trafod gydag Aelodau o'r Cyngor. Gwybodaeth am ddyheadau aelodau o'r cyngor yng nghyswllt Opsiynau ac Amcanion.	6/10/2008
Aelodau'r Cyngor	Amcanion ac Opsiynau wedi eu trafod gydag Aelodau o'r Cyngor. Gwybodaeth am ddyheadau aelodau o'r cyngor yng nghyswllt Opsiynau ac Amcanion.	14/10/2008
Rhanddeiliaid Allweddol	Gweledigaeth, Amcanion, Opsiynau ac Opsiynau Dethol drafft wedi eu hanfon allan at y Grŵp Rhanddeiliaid Allweddol. Gwybodaeth wedi'i derbyn am ddyheadau'r rhanddeiliaid o ran yr Opsiynau ar gyfer y Weledigaeth, Amcanion a Pholisïau.	21/10/2010

Aelodau'r Cabinet	Gweledigaeth, Amcanion, Opsiynau ac Opsiynau Dethol drafft wedi eu trafod gyda'r Cabinet. Gwybodaeth wedi'i derbyn am ddyheadau Aelodau o'r Cabinet ynghylch Opsiynau ar gyfer y Weledigaeth, Amcanion a Pholisïau.	28/10/2008
Aelodau'r Cyngor	Gweledigaeth, Amcanion, Opsiynau ac Opsiynau Dethol drafft wedi eu trafod gyda'r Cyngor. Gwybodaeth wedi'i derbyn am ddyheadau Aelodau o'r Cyngor ynghylch Opsiynau ar gyfer y Weledigaeth, Amcanion a Pholisïau.	11/11/2008
Rhanddeiliaid	Digwyddiad penodol i drafod polisi laith Gymraeg gyda rhanddeiliaid o Geredigion ac awdurdodau cyfagos. Trafodaeth ar sut i weithredu'r polisi a roddir gerbron yn y Strategaeth a Ffefrir. Y teimlad oedd y gallai treialu'r asesiadau mewn rhannau'n unig o'r Sir fod yn broblemus. Drwy ymgysylltu, roedd yn glir y dylai Fersiwn Adneuo'r Cynllun Datblygu Lleol ystyried cyflwyno'r asesiadau ar draws y Sir a monitro effaith y polisi yn flynyddol.	25/09/2009
Rhanddeiliaid	Amrywiol e-byst at ac oddi wrth Rhanddeiliaid i drafod newidiadau a wnaed yn y polisi a datblygiad y Canllawiau Cynllunio Atodol newydd.	25/09/2009 i 24/12/2010